# Archwilio

*CYNLLUN RHEOLI CARBON*

## *PAM FOD ANGEN CYNNAL ARCHWILIAD YNNI?*

Mae cynnal archwiliad ynni yn ein galluogi i adnabod beth sydd yn defnyddio ynni, boed yn drydan neu danwydd, ar ein safle.

Mae cynnal archwiliad ynni hefyd yn ein helpu i ddarganfod os oes ynni yn cael ei wastraffu, am nifer o resymau, er enghraifft:

- Offer yn cael ei adael ymlaen pan does neb yn eu defnyddio
- Offer yn cael eu defnyddio yn ddiangen
- Offer ymlaen a neb yn gwybod amdano
- Offer ymlaen pan mae'r adeilad wedi cau

## *SUT I GYNNAL ARCHWILIAD YNNI?*

Er mwyn cynnal archwiliad ynni, bydd angen i ni hel gwybodaeth am yr adeilad. Bydd angen ystyried y canlynol:

- Oriau agor yr adeilad
- Cyflwr yr adeilad – lloriau, waliau, ffenestri, drysau, nenfydau ayb
- Y system wresogi, a dwr poeth
- Rheolyddion gwresogi a dwr poeth
- Goleuadau – sut rai, sut mae nhw yn cael eu rheoli, pryd mae nhw ymlaen
- Offer – cyfrifiaduron, llungopiwyr, argraffwyr, byrddau gwyn rhyngweithiol, ayb. Faint, sut rai, pwy sydd yn eu defnyddio a pryd mae nhw yn cael eu diffodd?
- Cegin – offer cegin – oergelloedd, rhewgelloedd, popty, aeryllu, ayb.

Mae'n syniad da i gofnodi faint o offer sydd gennych, a hefyd i gerdded o amgylch y safle i nodi beth sydd ymlaen. Os yn bosib, mae'n well i wneud hyn pan mae'r adeilad yn wag, e.e. ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio os nad yw hyn yn bosib. Fel hyn, byddwch yn gweld faint o offer sydd yn cael ei adael ymlaen yn ddiangen.

Trwy gynnal archwiliad, gallwch adnabod ffyrdd o arbed ynni, er mwyn dechrau 'gweithredu'.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL